

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 2ail Rhagfyr, 2025, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Rachel Buckler, Emma Bryn, Jan Butler,
John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells,
Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Dale Rooke,
Tony Kear

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Pennaeth Cynllunio
Paige Moseley	Solicitor
Richard Ray	Paralegal
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Sue Riley, Ann Webb

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sirol Meirion Howells fuddiant personol a buddiant rhagfarnus yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chais DM/2021/01781 gan ei fod yn ffrindiau â'r ymgeiswyr. Felly, gadawodd y cyfarfod heb gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio arno.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 4^{ydd} Tachwedd 2025 fel cofnod cywir.

3. Cais DM/2021/01781 - Annedd ar wahân 3 ystafell wely newydd arfaethedig, gyda pharcio oddi ar y stryd. Robyrna, Berthon Road, Y Felin Fach, Sir Fynwy.

Gwnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd i'w cymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad (gan gynnwys yr amod diwygiedig 12) ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

<https://www.youtube.com/live/5rjh766FNig?si=YgtWqGGW7Sa1OHI2&t=159>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd y cais gan y Cynghorydd Sirol Dale Rooke a'i eilio gan y Cynghorydd Sirol John Crook y dylid cymeradwyo cais DM/2021/01781 yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad (gan gynnwys yr amod diwygiedig 12) ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA Dydd Mawrth, 2ail Rhagfyr, 2025, 2.00 pm

O blaid	-	10
Yn erbyn	-	0
Ymatal	-	0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Fe wnaethom benderfynu bod cais DM/2021/01781 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad (gan gynnwys yr amod diwygiedig 12) ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

4. Cais DM/2025/01047 - Ceisio caniatâd ar gyfer newid defnydd o ddefnydd preswyl dosbarth C3 i ddefnydd dosbarth C4, i'w ddefnyddio fel tŷ mewn amlfeddiannaeth. Nid oes unrhyw ddatblygiad yn cael ei gynnig, dim ond adnewyddu o fewn yr eiddo presennol. 9 Park Crescent, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 5ED.

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a'r ohebiaeth hwyr yr argymhellwyd eu cymeradwyo, yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/5rjh766FNig?si=zl0UtZp0r2gce7V6&t=1913>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd y cais gan y Cynghorydd Sirol John Crook, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Maureen Powell, y dylid cymeradwyo cais DM/2025/01047 yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	-	12
Yn erbyn	-	0
Ymatal	-	0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynwyd y dylid cymeradwyo cais DM/2025/01047 yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

5. ER GWYBODAETH: Apeliadau a dderbyniwyd o Ebrill i Fedi 2025.

Gwnaethom nodi'r apeliadau cynllunio a dderbyniwyd gan yr Adran Gynllunio ar gyfer y cyfnod mis Ebrill i fis Medi 2025.